


BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Cylch Gorchwyl yr Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol **Pob Oedran**



Diben

Bydd yr Is-Grŵp Hyfforddiant yn rheoli a chydlynu datblygu ac adolygu hyfforddiant sy'n berthnasol i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl ar lefel ranbarthol, genedlaethol a ledled y DU yn rheolaidd.

Amcanion

- Datblygu, cydlynu, ac adolygu darpariaeth hyfforddiant sy'n berthnasol i ddiogelu ledled y rhanbarth yn unol â hyfforddiant rhanbarthol, cenedlaethol a'r DU yn unol â chyfarwyddyd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (BDCGC).
- Bydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn cyflawni'r cyfrifoldeb ar gyfer datblygu ac adolygu hyfforddiant ar ran BDCGC.
- Rhannu ac amlygu ymarfer gorau ledled y rhanbarth, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o Ymchwiliadau Cenedlaethol, Adolygiadau Ymarfer a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol.
- Cydweithio'n rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth o ran datblygu a gweithredu hyfforddiant i ddatblygu a gwella ymarfer cyson.

Amllder cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu bob chwarter. Wrth i'r grŵp aeddfedu a datblygu, ystyrir darparu cyfleusterau fideo gynadledda ar gyfer cyfarfodydd pan ystyrir ei bod yn briodol ac yn ddibynnol ar gynnwys yr agenda.

Bydd blaen galendr o gyfarfodydd yn cael ei drefnu bob 12 mis.

Gellir galw cyfarfodydd yn ychwanegol i'r calendr arferol o gyfarfodydd wedi'u trefnu os bydd sefyllfaoedd neu faterion yn codi y mae angen ymateb neu roi sylw iddynt ar frys neu'n gyflym.

Llywodraethu

Bydd y Grŵp Hyfforddi yn Is-Grŵp sefydlog o Fwrdd Gweithredol DCGC, ac yn adrodd yn uniongyrchol iddo.

Cyfrifoldeb aelodau'r Is-Grŵp Hyfforddiant yw ymgynghori'n briodol o fewn eu sefydliadau a briffio eu haelodau sefydliadol ar unrhyw faterion perthnasol sy'n codi o ran y ddarpariaeth hyfforddiant arfaethedig.

Datblygu hyfforddiant

- Bydd yr Is-Grŵp Hyfforddiant yn cytuno ar yr adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno / comisiynu hyfforddiant newydd ac yn gwneud argymhellid i Fwrdd Gweithredol perthnasol BDCGC i gadarnhau a / neu gytuno ar gyllid, lle bo'n berthnasol.
- Bydd Uned Fusnes BDCGC yn dosbarthu manylion am hyfforddiant arfaethedig i gael sylwadau a chydlynu'r ymateb.

- Bydd Uned Fusnes BDCGC yn ystyried cyfathrebu am hyfforddiant wedi'i gadarnhau gyda'r fforymau rhanbarthol eraill, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, pan fo'n berthnasol.
- Pan fydd hyfforddiant yn cael ei ddatblygu'n genedlaethol a phan fo'n ymarferol ac yn briodol, bydd yr Is-Grŵp Hyfforddiant yn gofyn i aelodau grwpiau cenedlaethol ddylanwadu ar gynnwys, a sicrhau cysondeb.
- Bydd yr argymhellion terfynol ar gyfer darparu hyfforddiant yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd eu lleadaenu yn eu sefydliad eu hunain.
- Bydd manylion am hyfforddiant rhanbarthol a nodwyd yn cael eu rhoi ar wefan BDCGC, pan fo'n briodol.
- Bydd Uned Fusnes BDCGC yn monitro hyfforddiant lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn nodi meysydd i'w dyblygu a'u hadolygu ar ran yr Is-Grŵp Hyfforddiant.

Bydd sianelau cyfathrebu clir yn cael eu sefydlu rhwng yr Is-Grŵp Hyfforddiant Cenedlaethol, yr Is-Grwpiau Adolygu Ymarfer Oedolion ac Adolygu Ymarfer Plant a'r Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau ynglŷn â lleadaenu ymarfer gorau a chanlyniadau dysgu, ac anghenion ar gyfer staff (Gweler Atodiad 1 ar gyfer siart llif).

Aelodaeth

Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod o BDCGC, wedi'i gefnogi gan Uned Fusnes BDCGC. Bydd aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o bob asiantaeth bartner BDCGC ar draws yr agenda Plant ac Oedolion fel ei gilydd. Gellir cyd-ethol aelodau o bryd i'w gilydd am eu harbenigedd penodol.

Aelodaeth ym mis Ebrill 2017		*I'w gadarnhau
Enw	Asiantaeth a gynrychiolir	
Sue Swan (Cadeirydd)	SCWDP, Cyngor Sir Penfro	
Julie Breckon	Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Rhanbarthol CGC	
Liz Upcott	Arweinydd Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion	
Karen Arthur	Arweinydd Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Powys	
Cathy Richards	Arweinydd Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Gâr	
Amanda Thomas / Bethan Morgan	Nyrs Arweiniol Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	
Raquel Bennett	Nyrs Arweiniol Diogelu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	
Sian Howys	Arweinydd Diogelu Plant, Cyngor Sir Ceredigion	
Sharon Powell / Kellie Taylor	Arweinydd Diogelu Plant, Cyngor Sir Powys	
Rebecca Copp	Arweinydd Diogelu Plant, Cyngor Sir Gâr	
DI Fay Lantos	Uned Strategol Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed, Heddlu Dyfed Powys	
Dirk Neuman	SCWDP (Oedolion), Cyngor Sir Gâr	
Mike 'Alfie' Howard	SCWDP (Plant), Cyngor Sir Gâr	
Caroline Lewis	SCWDP, Cyngor Sir Ceredigion	
Bianca Kinghorn / Nichola Barrett	SCWDP, Cyngor Sir Powys	
Maxine Thomas	Addysg Bellach, Coleg Penfro	
Catrin Petche	Addysg, Cyngor Sir Ceredigion	
Michael Gedrim	Addysg, Cyngor Sir Powys	
Anthony Maynard	VAWDASV / Prevent	
*	Gwasanaeth Prawf / Cynrychiolaeth y sector gwirfoddol / Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	

